



12.11.21

Annwyl Rieni / Gofalwyr

Yn gyntaf, diolch yn fawr am eich holl gefnogaeth a'ch cydweithrediad wrth inni symud ymlaen trwy Dymor yr Hydref. Dyma ychydig o nodiadau atgoffa yn ystod yr hanner tymor hwn, ynghyd â'n trefniadau Nadolig eleni.

Lles

Llongyfarchiadau i Mrs Rhiannon Richards a benodwyd yn ddiweddar fel ein Swyddfa Lles, Gofal Bugeiliol a Chynhwysiant newydd. Mae Mrs Richards eisoes wedi cyflwyno ei hun trwy lythyr portread personol. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda phob teulu, mewn sawl ffordd wahanol, dros y flwyddyn i ddod.

Holiaduron Rhieni / Gofalwyr

Diolch i chi am lenwi ein holiaduron ysgol a anfonwyd atoch naill ai trwy neges destun neu'r Ap Rhiant. Byddwn yn ymateb maes o law gydag ymatebion a gweithredoedd yr ysgol ar ôl coladu'r ymatebion. Llenwch yr Holiadur Barn Rhieni erbyn dydd Gwener 19 Tachwedd os gwelwch yn dda.

Diwrnodau HMS

Mae gennym 3 diwrnod HMS ar ôl sef:

Llun 28 Chwefror

Gwener 29 Ebrill

Llun 20 Mehefin

Addysg Gorfforol / Gwisg

Gofynnir i ddisgyblion fynychu'r ysgol yn gwisgo'u cit AG ar ddiwrnodau AG. Mae cit AG yr ysgol yn esgidiau addas, gwaelodion tracwisg tywyll a thop gwyn. Gofynnwn yn garedig i chi lynu wrth y lliwiau hyn a pheidio â chaniatáu dillad llachar, lliwgar.

Mae o leiaf dwy ffenestr ar agor ym mhob ystafell ddosbarth bob dydd i ganiatáu awyru naturiol cyson. Sicrhewch fod eich plentyn yn dod â siwmpwr a chôt i'r ysgol.

Trefniadau Nadolig

Cyngherddau Nadolig: Eleni, bydd pob blwyddyn yn gwneud recordiad i ddymuno Nadolig Llawen i chi i gyd. Bydd y recordiadau hyn yn cael eu darparu'n ddigidol trwy gyfrifon dysgwyr Hwb yn rhad ac am ddim i rieni / gofalwyr eu mwynhau. Dim ond disgyblion â chaniatâd fydd yn cael eu ffilmio.

Cinio Nadolig: **Dydd Mercher 8 Rhagfyr**

Siwmpwr Nadolig / Diwrnod Dillad Eich Hun: **Dydd Gwener 10 Rhagfyr**

Ymweliad Arbennig: Mae Bro Ogwr wedi derbyn neges arbennig gan Siôn Corn i ddweud y bydd yn ymweld â ni diwedd y tymor. Bydd pob dosbarth yn cael cyfle i ymweld â Siôn Corn, fel grŵp cyfan ac nid yn unigol. Os nad ydych yn dymuno i'ch plentyn ymweld â Siôn Corn gyda'r dosbarth, rhowch wybod i'r athrawon dosbarth neu swyddfa'r ysgol.

Diolch am eich cefnogaeth parhaus

Cofion cynnes

Sharon Jayne

Pennaeth